# Cefnogi'r gwaith o brosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn derbyn, yn prosesu ac yn rhannu negeseuon a cheisiadau am wybodaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. derbyn negeseuon a cheisiadau am wybodaeth gan unigolion ac eraill mewn amrywiaeth o fformatau
2. cydnabod ac ymateb i negeseuon neu geisiadau am wybodaeth gan ddilyn gofynion y gweithle
3. blaenoriaethu a phrosesu negeseuon a cheisiadau ar frys a gofynion y gweithle
4. cael gafael ar unrhyw wybodaeth bellach sy'n ofynnol mewn perthynas â negeseuon neu geisiadau am wybodaeth
5. edrych a oes unrhyw gyfyngiadau ar yr wybodaeth a fydd yn cael ei rhannu
6. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i fynd i’r afael â heriau sy'n gysylltiedig â negeseuon neu geisiadau am wybodaeth
7. paratoi a rhannu negeseuon neu wybodaeth ag unigolion ac eraill mewn fformatau hygyrch
8. storio negeseuon a gwybodaeth gan ddilyn gofynion y gweithle
9. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer prosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth
10. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi â’r gwaith o brosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y fformatau a ddefnyddir i dderbyn, adolygu a chael gafael ar negeseuon a cheisiadau am wybodaeth
2. sut mae blaenoriaethu negeseuon neu geisiadau am wybodaeth yn ôl brys a gofynion y gweithle, a pham fod hyn yn bwysig
3. y mathau o wybodaeth bellach y gallai fod eu hangen i brosesu negeseuon a cheisiadau am wybodaeth, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau
4. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y ffyrdd mae negeseuon a cheisiadau am wybodaeth yn cael eu derbyn, eu prosesu a’u rhannu
5. sut mae cyfathrebu’n effeithiol er mwyn derbyn a rhannu negeseuon a gwybodaeth
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth dderbyn a rhannu negeseuon a gwybodaeth
7. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth dderbyn a rhannu negeseuon a gwybodaeth
8. sut mae paratoi gwybodaeth i'w rhannu mewn fformat hygyrch
9. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi â'r gwaith o brosesu a rhannu gwybodaeth
10. pam y dylid cofnodi gwybodaeth a’i hadrodd yn ffeithiol ac yn sensitif, a chanlyniadau posibl peidio â gwneud hynny
11. sut mae sicrhau cyfrinachedd wrth dderbyn a rhannu negeseuon a gwybodaeth
12. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi â’r gwaith o brosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth
13. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi â’r gwaith o brosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi â’r gwaith o brosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth
15. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gefnogi â’r gwaith o brosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth
16. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi â’r gwaith o brosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth, a sut i fynd i'r afael â hyn

17. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi â’r gwaith o brosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi'r gwaith o brosesu a rhannu negeseuon a gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD234 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Rhannu negeseuon, prosesu, gwybodaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |